Camau

Cynllun Dysgu Cymraeg Addysg a Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar / Learn Welsh Scheme for Early Years Education and Childcare

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

# CAMAU CASE STUDY: ENTRY PART 1

# ASTUDIAETH ACHOS CAMAU: MYNEDIAD 1





# Camau Case Study Entry Part 1 | Astudiaeth Achos Camau Mynediad 1

## Name of setting: Two Tribes After School Club
## Local Authority Area: Monmouthshire
## Name of person in setting completing this case study: Leanne Stephens and Cerys Duffield
## Date completed: 28/06/2023

Two Tribes After School Club is a well-run, successful service that operates from Magor Church Hall, Magor, Monmouthshire. CIW registered since July 2014 they provide an out of school childcare club for a maximum of 40 children between the age of three and 12 years.

The service is situated in a primarily English-speaking area and provides care for children from English medium schools, however, during a visit in June, Sian James, Lead Welsh Language Childcare Business Development Officer was captivated by the enthusiasm and dedication of leadership and staff towards encouraging the use of Welsh within the setting.

## Enw'r lleoliad:Clwb Ôl-Ysgol Two Tribes
## Ardal Awdurdod Lleol: Sir Fynwy
## Enw'r person a gwblhaodd yr astudiaeth achos hon: Leanne Stephens a Cerys Duffield
## Dyddiad cwblhau: 28/06/2023

Mae Clwb Ar ôl Ysgol Two Tribes yn wasanaeth llwyddiannus sy'n cael ei redeg yn dda ac sy'n gweithredu o Neuadd Eglwys Magwyr, Magwyr, Sir Fynwy. Y mae wedi'i gofrestru ag AGC ers mis Gorffennaf 2014 ac yn darparu gofal clwb gofal plant all-ysgol ar gyfer uchafswm o 40 o blant rhwng 3 a 12 oed.

Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli mewn ardal sy'n Saesneg ei hiaith yn bennaf ac mae'n darparu gofal i blant o ysgolion cyfrwng Saesneg; fodd bynnag, yn ystod ymweliad ym mis Mehefin, cafodd Sian James, ein Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant Iaith Cymraeg Arweiniol ei swyno gan frwdfrydedd ac ymroddiad yr arweinwyr a'r staff tuag at annog y defnydd o'r Gymraeg o fewn y lleoliad.

# Camau Case Study Entry Part 1 | Astudiaeth Achos Camau Mynediad 1

During the visit Sian was elated with the amount of Welsh within the environment. There were a range of resources with a very good variety and choice in both Welsh and English, ranging from Welsh language books, posters, labelling and Welsh reward stickers. Welsh mascots were also displayed proudly within the setting in the form of a Welsh dragon called Dewi and a beautiful handmade cushion with an embroidered Welsh dragon. Children are encouraged to communicate in Welsh and the mascots are then given as rewards to take home for children heard speaking the most Welsh.

2 staff members from Two Tribes enrolled on and completed the Camau Chwarae Entry Part 1 course, one of whom is joint manager Cerys, who strongly believes as ‘we live in Wales we should all try to speak Welsh’.




Yn ystod yr ymweliad cafodd Sian ei swyno gan faint o Gymraeg a oedd yn y lle. Roedd amrywiaeth a dewis da iawn yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn amrywio o lyfrau Cymraeg, posteri, labelu a sticeri gwobrwyo Cymraeg. Roedd masgotiaid Cymreig hefyd yn cael eu harddangos gyda balchder yn y lleoliad ar ffurf draig Gymreig o'r enw Dewi a chlustog hardd wedi'i gwneud â llaw ac arni frodwaith yn darlunio draig Gymreig. Anogir y plant i gyfathrebu yn Gymraeg ac yna rhoddir y masgotiaid fel gwobrau i fynd adref i blant a glywir yn siarad y Gymraeg fwyaf.

Cofrestrodd 2 aelod o staff Two Tribes ar gwrs Rhan 1 Mynediad Camau Chwarae, a'i gwblhau; un ohonynt yw’r cyd-reolwr Cerys, sy'n credu'n gryf y dylem i gyd, gan ein bod yn byw yng Nghymru, geisio siarad Cymraeg’.

# Camau Case Study Entry Part 1 | Astudiaeth Achos Camau Mynediad 1

The enthusiasm of Leanne, the dedicated Welsh language Coordinator of Two Tribes, shines through the whole setting. Leanne recognised the importance of incorporating Welsh into the setting’s daily routine and had already started integrating Welsh throughout the setting, even before undertaking the course. She decided to enrol on the Camau Chwarae Entry Part 1 course, to better understand some of the children who attend the setting and speak some Welsh that they have picked up in school. It also allowed her to learn and practice key vocabulary that they would use within a Play setting.

Leanne enjoyed Entry Part 1 and would recommend the course. She describes it as ‘self-explanatory with plenty of information and guidance.’ Leanne proudly announced that she was on day 600 of Duolingo which she also uses to reinforce her learning.




Mae brwdfrydedd Leanne, Cydlynydd Cymraeg ymroddedig Two Tribes, yn disgleirio trwy'r lleoliad cyfan. Fe wnaeth Leanne gydnabod pwysigrwydd ymgorffori'r Gymraeg yn nhrefn ddyddiol y lleoliad ac roedd eisoes wedi dechrau integreiddio'r Gymraeg drwy gydol y lleoliad, hyd yn oed cyn ymgymryd â'r cwrs. Penderfynodd gofrestru ar gwrs Rhan 1 Mynediad Camau Chwarae, a’i galluogodd i ddeall yn well rai o'r plant a oedd yn mynychu'r lleoliad, a siarad rhywfaint o’r Gymraeg yr oeddent wedi'i chodi o’r ysgol. Fe wnaeth y cwrs hefyd roi cyfle iddi ddysgu ac ymarfer geirfa allweddol y byddent yn ei defnyddio mewn lleoliad Chwarae.

Mwynhaodd Leanne Mynediad Rhan 1 a byddai'n argymell y cwrs. Mae hi'n ei ddisgrifio fel 'un hunanesboniadol gyda digon o wybodaeth ac arweiniad. Cyhoeddodd Leanne gyda balchder ei bod ar ddiwrnod 600 o Duolingo y mae hi hefyd yn ei ddefnyddio i atgyfnerthu ei dysgu.

# Camau Case Study Entry Part 1 | Astudiaeth Achos Camau Mynediad 1

Additionally, Leanne has gone that one step further and developed a Dysgu Cymraeg file for the staff and children. The file includes key Welsh vocabulary from colours, days of the week, months and so much more and is at hand for all within the setting.

Both Carys and Leanne are eager to progress to the Camau Chwarae Entry Part 2 course and will be starting in the new term, but they also recognise the importance of revising what they have learnt through Entry Part 1 by embedding what they have learnt into the setting through signage, resources and the Dysgu Cymraeg folder. By having the range of resources, signage, posters and books this will ensure that the training they have received truly influences practice and further strengthen their proficiency in Welsh as well as giving the children opportunities to learn some Welsh.




Yn ogystal, mae Leanne wedi mynd gam ymhellach a datblygu ffeil Dysgu Cymraeg ar gyfer y staff a'r plant. Mae'r ffeil yn cynnwys geirfa Gymraeg allweddol o liwiau, dyddiau'r wythnos, misoedd a llawer mwy ac mae hwn wrth law i bawb yn y lleoliad.

Mae Carys a Leanne yn awyddus i symud ymlaen i gwrs Rhan 2 Mynediad Camau Chwarae a byddant yn dechrau yn y tymor newydd, ond maent hefyd yn cydnabod pwysigrwydd adolygu'r hyn y maent wedi'i ddysgu trwy Fynediad Rhan 1 trwy wreiddio'r hyn a ddysgwyd ganddynt yn y lleoliad ar ffurf arwyddion, adnoddau a ffolder Dysgu Cymraeg. Bydd cael amrywiaeth o adnoddau, arwyddion, posteri a llyfrau yn sicrhau bod yr hyfforddiant y maent wedi'i dderbyn yn dylanwadu’n wirioneddol ar ymarfer ac yn cryfhau eu hyfedredd yn y Gymraeg ymhellach yn ogystal â rhoi cyfleoedd i'r plant ddysgu rhywfaint o Gymraeg.

# Camau Case Study Entry Part 1 | Astudiaeth Achos Camau Mynediad 1



Following the visit and some positive feedback and support from the Welsh Language Development Officer, Leanne stated that the whole setting ‘have gone mad for Welsh now and we’re so pleased that you feel we are doing a good job!’ Additionally, Two Tribes have expressed their interest in enrolling on the Welsh Promise initiative in the new term. The Promise, with the support from Clybiau Plant Cymru Kids’ Clubs, will further enable the setting to celebrate their strengths and give them the tools and guidance to look at areas to improve to finally build their confidence to work towards the Active Offer!

Yn dilyn yr ymweliad a rhywfaint o adborth a chefnogaeth gadarnhaol gan y Swyddog Datblygu Iaith Gymraeg, dywedodd Leanne fod y lleoliad cyfan 'wedi mynd yn wallgof dros y Gymraeg nawr ac rydym mor falch eich bod yn teimlo ein bod yn gwneud gwaith da!' Yn ogystal, mae Two Tribes wedi mynegi eu diddordeb mewn cofrestru ar fenter yr Addewid Cymraeg yn y tymor newydd. Bydd yr Addewid, gyda chefnogaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, yn galluogi'r lleoliad i ddathlu eu cryfderau ymhellach a rhoi'r offer a'r arweiniad iddynt edrych ar feysydd i'w gwella er mwyn meithrin eu hyder o'r diwedd i weithio tuag at y Cynnig Gweithiol!

## Da iawn Two Tribes!


FLY
CYMRU
Tickets
Passport
Control
security


COCH
OREN
MELYN
GWYRDD

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

www.clybiauplantcymru.org

Early Years Wales Blynyddoedd Cynnar Cymru

https://earlyyears.wales/

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

https://www.meithrin.cymru/

NDNA Cymru
National Day Nurseries Association

https://www.ndna.org.uk/

cwlwm

www.cwlwm.org.uk

pacey CYMRU

https://www.pacey.org.uk/

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Cwmni cyfyngedig drwy warrant / Company limited by guarantee 4296436
Elusen Gofrestredig / Registered charity 1093260

Clybiau Plant Cymru Kids’ Clubs, Tŷ’r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd, CF14 5UW
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Bridge House, Station Road, Llanishen, Cardiff, CF14 5UW